

Annwyl Ddysgwyr,

Hoffwn ddechrau drwy ddweud diolch yn fawr iawn i chi am y gefnogaeth barhaus a gawsom gennych, ein dysgwyr. Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un ryfedd iawn i bawb a thrwy gydol y cyfnod ansicr yma, rydych i gyd wedi parhau'n amyneddgar iawn ac yn deyrngar i'n staff a gwasanaeth. Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i chi am hyn. Diolch.

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Fynwy yn ailagor o 12 Ebrill ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu dysgwyr newydd a dysgwyr sy'n dychwelyd.

Yn ystod pandemig diweddar COVID-19 rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau fod ein canolfannau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn amgylchedd dysgu diogel. Hoffwn eich sicrhau mai eich diogelwch a'ch llesiant fydd ein prif flaenoriaeth bob amser. Fodd bynnag, gofynnir i chi gofio ein bod yn disgwyl i'n holl ddysgwyr gydymffurfio a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer eu hiechyd a diogelwch eu hunain ac eraill. Oherwydd hyn, rydym wedi rhoi nifer o fesurau diogelwch yn eu lle a gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad wrth leihau'r risg o ledaeniad COVID-19 drwy ddilyn y mesurau hyn.

Pan fynychwch un o'n canolfannau ar gyfer dosbarth dysgu oedolion yn y gymuned, gofynnir i chi:

- roi hylif diheintio ar eich dwylo cyn dod i mewn i'r adeilad
- cadw pellter cymdeithasol ac aros 2 fetr i ffwrdd o staff y ganolfan a dysgwyr eraill – bydd marciau ar y llawr yn y canol a chaiff y seddau a'r byrddau eu trefnu gyda hyn dan sylw cyn i chi gyrraedd
- gwisgo gorchudd wyneb ym mhob rhan gyhoeddus o'r ganolfan. Rydym yn annog defnyddio gorchuddion wyneb drwy gydol y sesiwn ond deallwn efallai na fydd hyn yn bosibl i rai dysgwyr am wahanol resymau, a byddwn yn cefnogi eich dewis i dynnu'r gorchudd wyneb pan fyddwch wedi eistedd yn eich dosbarth.
- i gymryd cyfrifoldeb am eich ardal dysgu ac unrhyw offer a ddefnyddir yn ystod y dosbarth – gofynnir i chi sychu eich ardal desg, cadair ac offer cyn dechrau gweithio ac unwaith i chi orffen y dosbarth. Bydd y ganolfan yn darparu deunyddiau glanhau
- dod a'ch diodydd/lluniaeth eich hun gyda chi – oherwydd cyfyngiadau COVID-19 ni fedrwn ddarparu te/coffi ac yn y blaen
- aros wrth eich desg yn ystod y dosbarth os nad oes angen i chi fynd i'r toiled neu adael yr adeilad
- gadael y ganolfan yn brydlon unwaith y bydd eich dosbarth wedi gorffen – bydd angen glanhau'r ganolfan yn drwyadl cyn dechrau'r dosbarth nesaf a bydd faint o amser sydd gan staff i wneud hyn yn gyfyngedig.

Rydym yn falch iawn i fod yn aildechrau cyflenwi ein gwasanaeth ac yn gwneud hynny gyda'r gofal mwyaf. Cafodd y mesurau hyn eu gosod i sicrhau diogelwch ac iechyd da staff y ganolfan a dysgwyr a rydym yn ddiolchgar tu hwnt am eich cefnogaeth barhaus.

Ein blaenoriaeth yw eich cadw yn dysgu a'ch cadw yn iach.

Yn gywir

Nikki Jones
Dysgu Oedolion yn y Gymuned